Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Brynaerau
# Pontllyfni
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL54 5EU

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/09/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymuned Brynaerau mewn ardal wledig, rhyw hanner milltir o bentref Pontllyfni, sydd ar y briffordd rhwng Caernarfon a Phwllheli. Daw 77% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Cynrychiola'r disgyblion yr ystod lawn o allu. Disgrifia'r ysgol yr ardal y daw'r disgyblion ohoni fel un nad yw'n neilltuol ffyniannus nac o dan anfantais economaidd.

Yn ystod yr arolygiad, roedd 71 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys pedwar plentyn oedran meithrin, sy'n mynychu yn y prynhawniau yn unig. Yn ôl yr ysgol, mae 9% o ddisgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, sydd yn llawer is na'r ffigwr cenedlaethol. Mae gan 21% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn agos i'r ffigwr cenedlaethol. Mae ychydig iawn o'r disgyblion o gefndir ethnig arall.

Mae bron y cyfan o'r disgyblion yn trosglwyddo yn unarddeg oed i Ysgol Dyffryn Nantlle.

Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn Ionawr 2007. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mai 2007. Bu newidiadau sylweddol yn staff addysgu'r ysgol ers yr arolygiad blaenorol.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Brynaerau yn 2012-2013 yw £3,513. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £9,577 a'r lleiafswm yw £2,839. Mae Ysgol Gynradd Brynaerau yn safle 79 allan o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- ethos cynhwysol a chyfeillgar iawn yn bodoli;
- bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu;
- ymddygiad disgyblion yn dda iawn;
- bron pob disgybl yn frwdfrydig ac yn cyfranogi'n dda mewn gwersi;
- ansawdd yr addysgu yn dda; a
- systemau clir ar gyfer asesu cynnydd.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth a'r staff yn rhannu gweledigaeth glir;
- y corff llywodraethol yn ymgymryd â'i rolau yn effeithiol iawn;
- arweinwyr yn adnabod yn glir ei chryfderau a'r meysydd i'w datblygu;
- systemau effeithiol ar gyfer hunanarfarnu; a
- bod yr ysgol wedi meithrin amrediad eang o bartneriaethau defnyddiol sy'n cyfrannu'n dda tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau sillafu disgyblion yn yr iaith Saesneg

A2 Sicrhau bod y marcio yn gyson yn dangos i ddisgyblion sut mae gwella'u gwaith

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen disgyblion Ysgol Brynaerau ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod gan y rhan fwyaf ohonynt lefel addas o allu yn y medrau sylfaenol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cymorth ychwanegol, yn gwneud cynnydd da mewn gwersi a thros gyfnod. Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da ymhob un o'r meysydd dysgu. Maent yn cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio ac yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio eu medrau'n hyderus ar draws ystod o bynciau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o iaith, llythrennedd a'u medrau cyfathrebu yn y Gymraeg. Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud ar eu hathrawon yn ystod gwersi. Mae'r rhan fwyaf yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Maent yn datblygu ystod eang o eirfa briodol ac mae'r rhan fwyaf yn eu defnyddio'n glir a chywir wrth siarad am eu gwaith. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion hyn yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dda. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un yn hyderus yn y ddwy iaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn datblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol. Mae bron pob un o ddisgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen yn darllen yn ystyrlon a chyda rhugldar a mynegiant clir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod eang o destunau yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda rhugldar, mynegiant a dealltwriaeth dda. Defnyddiant eu medrau darllen yn effeithiol i gywain gwybodaeth a'i chyflwyno mewn modd diddorol. Maent yn defnyddio eu medrau trawsieithu'n hyderus wrth wneud gwaith ymchwil.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r holl ddisgyblion yn dangos datblygiad parhaus o ran medrau ysgrifennu cynnar. Mae rhan fwyaf disgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu'n ystyrlon ac yn annibynnol yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio geirfa addas a diddorol, gan ddechrau amrywio brawddegau ac atalnodi'n gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau ysgrifennu'n effeithiol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm i bwrpasau gwahanol ac ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd. Mae enghreifftiau o ysgrifennu creadigol ac estynedig da yn y ddwy iaith ar draws y cwricwlwm. Mae safon gwaith estynedig y goreuon o ansawdd uchel ac mae gwaith y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos safonau da o ran cywirdeb iaith yn y Gymraeg. Er bod ansawdd gwaith ysgrifenedig y mwyafrif o ddisgyblion yn Saesneg yn dda, mae gwallau sillafu yn amlygu yng ngwaith y lleiafrif.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y mwy abl a thalentog, yn gwneud cynnydd da.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd llwyddiannus yn eu defnydd o fedrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm.

Nid oes adroddiad data ar ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn oherwydd bod nifer y disgyblion y Cyfnod Sylfaen a aseswyd yn 2012 yn rhy ychydig i adrodd heb adnabod disgyblion unigol. Yn yr un modd, nid oes adroddiad data ar gyfnod allweddol 2 yn 2012 oherwydd bod nifer y disgyblion a aseswyd yn rhy ychydig i adrodd heb adnabod disgyblion unigol. Mae tueddiadau dros gyfnod mewn cyflawniad disgyblion diwedd cyfnod allweddol 2 yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd yn uwch na chanrannau'r teulu dros bum mlynedd. Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 5) ymhob un o'r pynciau yn llawer gwell nag ysgolion y teulu dros bedair blynedd. Mewn cymhariaeth ag ysgolion gyda chanran tebyg o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch yn 2012 yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf ymhob un o'r pynciau. Yn gyffredinol, dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r tueddiadau yn y 25% neu'r 50% uchaf, a bron yn ddieithriad yn y 25% uchaf o ran y lefelau uwch.

Does dim bwlch arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r merched yn tueddu perfformio'n well ar y lefelau uwch dros gyfnod.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn cydweithredu'n dda iawn gyda phob aelod o staff a gyda'i gilydd. Maent yn dilyn arferion yr ystafell ddosbarth yn dda iawn o oedran cynnar. Mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at gadw'n iach a diogel ac maent yn deall pwysigrwydd bwyta diet iach a gwneud ymarfer corff. Mae ymddygiad mewn dosbarthiadau, amser chwarae ac amser cinio yn dda iawn.

Mae disgyblion yn hyderus ac yn dangos lefelau da o hunan-barch. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau cymdeithasol a medrau bywyd datblygedig ac maent yn awyddus i ddysgu a datblygu eu hunain ymhellach. Maent yn dangos cwrteisi, parch a gofal at ei gilydd ac at oedolion ac ymwelwyr.

Mae disgyblion yn cymryd rhan yn llwyddiannus mewn ystod o weithgareddau cymunedol. Mae'r cyngor ysgol a'r eco bwyllgor wedi'u hen sefydlu ac mae disgyblion yn dangos medrau da wrth wneud penderfyniadau. Mae disgyblion yn falch o'u rôl ac yn gweithredu'n gyfrifol gyda staff a'r corff llywodraethol i gynorthwyo gyda datblygiadau yn yr ysgol.

Mae medrau mentergarwch disgyblion yn datblygu'n eithriadol trwy brosiectau fel 'Llysiau Llyfni'. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn gweithio gyda mesur da o annibyniaeth ac yn parhau â'u dysgu y tu allan i'r ysgol.

Mae canran presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf dros y pum mlynedd ddiwethaf mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim. Mae prydlondeb disgyblion yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr sydd yn ennyn diddordeb ac yn ateb gofynion disgyblion o bob oedran. Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio rhaglenni cynhwysfawr. Mae ystod dda o weithgareddau all-gwricwlaidd ar gael i'r disgyblion hŷn sydd yn cyfrannu at eu datblygiad diwylliannol a chorfforol yn llwyddiannus.

Mae cynllunio trylwyr ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, medrau meddwl a datrys problemau i sicrhau dilyniant a chynnydd cyson ymhob maes. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar y safonau da a gyflawnir ar draws yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn gynhwysfawr ac yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da iawn. Mae pwyslais amlwg ac effeithiol ar gyfoethogi geirfa'r plant trwy bob maes dysgu a phob pwnc. Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant a hanes Cymru yn llwyddiannus iawn.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r ysgol yn eu hybu i edrych ar ôl eu hamgylchedd a'u cyd-ddyn ac mae gwaith y cyngor eco yn dyst i'r holl weithgarwch amrywiol a bywiog sy'n digwydd ar bob lefel yn yr ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae gan athrawon ac oedolion eraill berthynas dda gyda'r disgyblion a gwybodaeth bynciol drwyadl. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau a gweithgareddau i ysbrydoli a herio'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae cyflwyniadau bywiog, cyflymder da a holi effeithiol. Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn rhoi sylw da i anghenion pob un o'r disgyblion. Mewn ychydig bach o achosion, nid oes digon o her ar gyfer y disgyblion ac mae cyflymder y gwersi yn disgyn.

Mae athrawon yn modelu iaith dda ar bob achlysur, ac yn annog disgyblion i ddatblygu eu Cymraeg mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau gwahanol. Maent yn cynllunio yn effeithiol ac yn llwyddo i ysgogi'r disgyblion. Gwneir defnydd medrus a dychmygus o adnoddau.

Ar y cyfan, mae athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion ar lafar a thrwy farcio. Fodd bynnag, nid yw'r marcio bob amser yn dangos i'r disgyblion sut i wella eu gwaith. Mae asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n dda ac mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion hunanasesu ac i asesu gwaith eu cyfoedion.

Mae'r ysgol yn tracio cynnydd disgyblion yn systematig ac mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth hyn yn ogystal â data perfformiad yn eu cynllunio.

Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth fanwl am gyflawniad a datblygiad eu plant mewn adroddiadau blynyddol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae Ysgol Brynaerau yn gymuned ddiogel, drefnus a gofalgar, lle caiff pawb ei werthfawrogi. Mae polisïau a threfniadau priodol yn hyrwyddo byw yn iach a lles yn llwyddiannus. Mae gan ddisgyblion ymdeimlad cryf o berthyn yn yr ysgol, ac maent yn mwynhau bod yno. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar gynhwysiant disgyblion.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle i gyfrannu at ddatblygiadau yn yr ysgol ac maent yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn eu cymuned leol. Mae'r profiadau dysgu hyn yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o ystod eang o wasanaethau arbenigol i wella'r cymorth a'r arweiniad y mae'n ei roi i ddisgyblion.

Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae darpariaeth dda i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol wedi rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar. Mae cymorth wedi'i dargedu'n glir wedi arwain at fuddion cadarnhaol mewn cyflawniad, ymddygiad ac agweddau. Caiff cynlluniau addysg unigol eu harfarnu'n rheolaidd ar y cyd â disgyblion a rhieni. Cryfder arbennig yn yr ysgol yw'r bartneriaeth gadarn sydd gyda rhieni'r disgyblion hyn. Maent yn cyd-adolygu cynlluniau addysg unigol ac yn ymwybodol o'r targedau mesuradwy a osodir.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n gwerthfawrogi pob disgybl ac yn cydnabod eu cyflawniadau. Mae perthnasoedd da iawn yn bodoli rhwng staff a disgyblion ac mae'r rhain yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos cadarnhaol.

Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob un ac sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol. Mae'r rhain yn hysbys i'r holl randdeiliaid.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol wedi buddsoddi llawer yn adnoddau ffisegol yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf i sicrhau eu bod yn ddiogel, yn weithredol ac yn ddeniadol. Gwneir defnydd pwrpasol o dir ac adeilad yr ysgol ar gyfer chwarae a dysgu gan ddilyn argymhellion y cyngor ysgol a'r cyngor eco. Mae ystafelloedd dosbarth lliwgar gydag adnoddau da ar gyfer dibenion y cwricwlwm. Mae arddangosfeydd graenus o safon uchel ar draws yr ysgol sy'n symbylu'r dysgu. Dangosant enghreifftiau da o waith a llwyddiannau'r disgyblion. Caiff y safle a'r adeilad eu cadw'n lân a graenus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn cynnig cyfeiriad strategol cadarn sy'n seiliedig ar wella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth i ddisgyblion. Mae'r tîm addysgu yn cydweithio'n effeithiol i ddatblygu gweithgareddau a ffyrdd o ddysgu ac addysgu sy'n dylanwadu'n bositif ar gyflawniad disgyblion. Gwnânt ddefnydd effeithiol o ddadansoddiadau data i fesur cynnydd disgyblion ac i flaenoriaethu agweddau i dderbyn sylw pellach.

Mae cyfrifoldebau a rolau pob aelod o'r tîm addysgu wedi'u diffinio'n eglur gan gynnwys arwain a chefnogi meysydd cwricwlaidd a'r medrau. Mae'r holl staff yn ymroddedig i'w rôl wrth gyflawni amcanion yr ysgol.

Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth dda o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg. Trwy gasglu gwybodaeth bynciol, ymweliadau monitro a dadansoddi ystod eang o ddata, maent yn herio a chefnogi'r ysgol er mwyn codi safonau ymhellach. Mae'r polisïau, dogfennau a gweithdrefnau statudol yn ateb y gofynion.

Mae'r ysgol wedi dewis a dethol nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol sy'n cyfrannu'n bositif at godi safonau. Maent yn cynnwys mentrau i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion ac ymestyn darpariaeth y Cyfnod Sylfaen ymhellach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r prosesau hunanarfarnu a'r disgwyliadau uchel ymysg athrawon a'r llywodraethwyr yn cael dylanwad cadarnhaol ar hybu safonau uwch ar draws yr ysgol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn eglur a dadansoddol. Defnyddir ystod eang o dystiolaeth i gefnogi'r barnau gan gynnwys data perfformiad, barn rhieni a disgyblion, monitro gwaith, arsylwi gwersi a barn swyddogion gwella'r awdurdod lleol.

Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen weithredol ac mae'r blaenoriaethau yn cyd-fynd â'r materion a nodwyd yn yr hunanarfarniad. Gosodir targedau mesuradwy a chyllideb benodol i sicrhau gwelliant.

Mae'r broses o fonitro'r cwricwlwm a'r medrau yn cyfrannu'n gadarnhaol i'r broses o godi safonau. Mae pwyslais priodol ar fonitro safonau yn ogystal â'r ddarpariaeth ac mae'r cynnydd yn gweithredu'r materion i'w datblygu yn cael ei adolygu'n ofalus gan y pennaeth a'r corff llywodraethol.

Mae'r ysgol yn datblygu nifer o gymunedau dysgu proffesiynol yn fewnol ac fel aelodau o glwstwr o ysgolion lleol. Mae hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar arferion a safonau'r ysgol, yn enwedig wrth ddatblygu medrau llythrennedd a lledaenu arfer dda o ran addysgu a dysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi meithrin amrediad eang o bartneriaethau defnyddiol sy'n cyfrannu'n dda tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gyda rhieni a gofalwyr. Mae'r ysgol yn elwa'n ariannol o gefnogaeth cymdeithas weithgar rhieni Brynaerau. Mae partneriaethau effeithiol gyda'r gymuned a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o'u hardal leol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus iawn gyda'r clwstwr o ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd y mae'n ei bwydo er mwyn creu deunyddiau addysgu a rhannu adnoddau. Mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac ar safonau, yn enwedig ar safonau llafar, darllen ac ysgrifennu disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda'r ysgol uwchradd leol er mwyn paratoi'r disgyblion hŷn ar gyfer adeg trosglwyddo.

Mae'r athrawon ar y cyd ag athrawon eraill o'r clwstwr yn cymedroli a safoni asesiadau yn effeithiol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn derbyn darpar athrawon o'r sector addysg uwch ar gyfnodau o brofiad gwaith sy'n gymorth i rannu arferion da a datblygu staff yn broffesiynol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol a gwneir defnydd da o brofiad ac arbenigedd yr athrawon i gyflwyno'r cwricwlwm. Rhoddir pwyslais mawr ar ddatblygiad proffesiynol parhaus y staff addysgu a chefnogi ac mae prosesau rheoli perfformiad priodol yn hybu hyn ymhellach. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion dysgu yn cydweithio ac yn cefnogi ei gilydd yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cwrdd â'r gofynion sy'n ymwneud â baich gwaith athrawon. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu gwaith y disgyblion ac i arsylwi arfer dda.

Caiff yr adeilad a safle'r ysgol eu cynnal a chadw yn dda. Mae'r ysgol yn buddsoddi mewn adnoddau pwrpasol er mwyn cynnal safonau addysg ac yn eu hadnewyddu yn ôl yr angen.

Mae'r corff llywodraethol a'r pennaeth yn cydweithio'n effeithlon wrth reoli'r cyllid. Mae gweithdrefnau priodol ar gyfer sicrhau bod cyllid ac adnoddau yn cael eu darparu ar gyfer hybu datblygiad disgyblion a chefnogi'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun datblygu ysgol.

Mae'r deilliannau cadarnhaol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn dyst i'r gwerth da am arian y mae'r ysgol yn ei gynnig.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Dylid ystyried y tueddiadau yn nata perfformiad yr ysgol gyda gofal gan fod nifer y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn fychan iawn.

Nid oes adroddiad data ar ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn oherwydd bod nifer y disgyblion y Cyfnod Sylfaen a aseswyd yn 2012 yn rhy ychydig i adrodd heb adnabod disgyblion unigol. Yn yr un modd, nid oes adroddiad data ar ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ar gyfer 2012 oherwydd bod nifer y disgyblion a aseswyd yn rhy ychydig i adrodd heb adnabod disgyblion unigol. Mae tueddiadau dros gyfnod mewn cyflawniad disgyblion diwedd cyfnod allweddol 2 yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd (canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 mewn cyfuniad o'r Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na chanrannau'r teulu dros bum mlynedd. Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 5) ymhob un o'r pynciau yn llawer gwell nag ysgolion y teulu dros bedair blynedd. Mewn cymhariaeth ag ysgolion gyda chanran tebyg o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch yn 2012 yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf ymhob un o'r pynciau. Yn gyffredinol, dros y pedair blynedd diwethaf mae'r tueddiadau yn weddol gyson yn y 25% neu'r 50% uchaf, gyda chyflawniadau ar y lefelau uwch bron yn ddieithriad yn y 25% uchaf.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y mwy abl a thalentog, yn gwneud cynnydd da iawn. Does dim patrwm amlwg yn awgrymu bod gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen, ond mae'r bechgyn yn tueddu gwneud yn well ar y deilliannau uwch. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r merched yn tueddu perfformio'n well ar y lefelau uwch dros gyfnod.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiaduron i ddysgwyr**

Ymatebodd 31 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 i'r holiadur. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn, gyda phawb yn cytuno gyda phob un datganiad. Mae pawb yn cytuno bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a phawb yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Mae pob disgybl yn cytuno bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a hefyd eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae pawb yn cytuno bod yr ysgol yn eu cefnogi a'u cynorthwyo'n dda, ac yn eu dysgu sut i aros yn iach. Mae'r disgyblion i gyd yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae'r ymatebion yn fwy cadarnhaol na'r cyfartaledd ar draws Cymru.

**Holiaduron i rieni**

Derbyniwyd ymatebion oddi wrth 11 o rieni. Roedd ymatebion i bob cwestiwn uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd eraill yng Nghymru, gyda phawb yn cytuno gyda phob un datganiad. Mae pawb yn cytuno bod eu plant yn hoffi'r ysgol a bod eu plant yn gwneud cynnydd da. Maent o'r farn bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda iawn ac mae pawb yn teimlo bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol a bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda. Maent yn cytuno bod eu plant yn cael eu hannog i wneud ymarfer corff yn rheolaidd a'u haddysgu i gadw'n iach. Dywed pob rhiant fod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch ac mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Mae'r rhieni i gyd hefyd yn nodi eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| David Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Jane Peate | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nia Puw | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.